

Math o ddi-gwyddiad	Nifer o ddi-gwyddiadau	A gwblhawyd asesiad	Ardaloedd a effeithiwyd
Cyflenwad o ddŵr â lliw arno?	5	Do	Cwm Rhondda (Ionawr), Tylorstown (Digwyddodd Hydref 2000, rhoddwyd gwybod amdano Chweffror 2001), Sir Benfro (Gorffennaf), Hwlfordd (Awst), Treorci (Tachwedd)
Fandaliaeth	3	Do	Cefn Mabil (Awst), Treceilyn (Tachwedd), Mynydd Libanus (Tachwedd)
Problemau Blas ac Arog	2	Naddo	Henffordd (Mai), Abertawe a Chaerfyrddin (Mai)
Problemau trin	1	Do	Llyswen (Ionawr)
Colli cyflenwad	1	Do	Deiniolen (Ionawr)
Lefelau uchel THM	1	Do	Llanfairfechan (Medi)
Cyngor i ferwi dŵr rhag ofn	2	Do	Penyffordd (Awst), Sain Nicolas/Tremarchog? (Hydref)

Ym Mehefin 2001, mewn achos a ddygwyd gan yr Arolygiaeth yn Llys Ynadon Merthyr Tudful, plediodd Dŵr Cymru'n euog o gyflenwi dŵr oedd yn anaddas ar gyfer pobl, wedi iddynt gyflenwi dŵr â lliw arno i dai mewn rhannau o Ferthyr Tudful ym mis Gorffennaf 2000. Cafodd y Cwmni ddirwy o £12,000 a dyfarnwyd costau o £5,700 yn ei erbyn.

GWYBODAETH BELLACH

Os hoffech dderbyn gwybodaeth bellach ar safon dŵr yfed mae'r taflenni canlynol ar gael yn rhad ac am ddim gan ADY ac fe ellir eu cael hefyd ar wefan ADY:

- Beth ydym ni'n ei wneud?
- Pa mor dda yw'r Dŵr Yfed?
- Problemau gyda'ch dŵr yfed
- Clorin, arogl a blas
- Dŵr â lliw arno
- Plwm mewn dŵr yfed
- Cyflenwadau dŵr yfed preifat
- Dŵr caled
- Dŵr tap – O ble mae'n dod a sut y caiff ei wneud yn ddiogel?
- Defnyddio sodr di-blwm ar gyfer ffitiadau dŵr yfed
- Adroddiadau ADY ar bob cwmni dŵr

AROLYGIAETH DŴR YFED

Floor 2/A1

Ashdown House
123 Victoria Street
London SW1E 6DE

Ffôn: 020 7944 5956

E-bost: dwi_enquiries@dwi.gsi.gov.uk
Hafan ddalen rhyngwyd: www.dwi.gov.uk

Published by the Department for Environment, Food and Rural Affairs.
© Crown Copyright 2002.
Printed in the UK, June 2002 on paper comprising 100% post-consumer waste.
Product code 01EP0382/g




gwarchodwyr ansawdd dŵr yfed

Arolygiaeth Dŵr Yfed

Adroddiad Ar

**Dŵr Cymru
Cyfyngedig Ar Gyfer 2001**



CYFLWYNIAD

Mae'r Arolygiaeth Dŵr Yfed (ADY) yn archwilio ar ran y Llywodraeth fod cwmnïau dŵr yn cyflenwi dwr sy'n ddiogel i'w yfed. Mae'r daflen hon yn crynhoi canlyniadau ein harchwiliadau ar Dŵr Cymru yn ystod 2001. Dylech ei darllen ochr yn ochr â thafalen ADY *Pa mor dda yw'r Dŵr Yfed?*, sy'n rhoi mwy o fanylion ar y safonau a'r profion. Mae hwn ar gael yn rhad ac am ddim ar wefan ADY yn www.dwi.gov.uk.

Mae Dŵr Cymru yn parhau i gyflenwi dŵr yfed o safon uchel i chi. Yn 2001, llwyddodd 99.76% o fwy na 160,800 o brofion i gwrdd â'r safonau. Mae hyn yn is na'r ffigur cyffredinol ar gyfer Cymru a Lloegr o 99.86%. Cynhelir y profion hyn ar samplau a gymerir o weithfeydd trin dŵr, cronfeydd gwasanaeth a thapiau defnyddwyr.

Nid ystyriwyd fod yr un o fethiannau 2001 yn niweidiol i iechyd defnyddwyr. Cafodd pob methiant ei asesu ac fe weithredodd Dŵr Cymru ble'r oedd angen i atal methiannau pellach.

Er fod canlyniadau 2001 yn dda, mae rhai materion a allent fod o bryder i chi efallai. Caiff y rhain eu manylu isod, yn cynnwys unrhyw gamau a gymerwyd gan Ddŵr Cymru i wella ei berfformiad ymhellach.

BACTERIA'R COLON

Mae bacteria'r colon i'w ganfod yn achlysurol mewn samplau dŵr yfed. Nid ystyrir fod y bacteria a ganfyddir yn niweidiol i iechyd defnyddwyr. Os canfyddir bacteria'r colon mae Dŵr Cymru yn archwilio ar unwaith. Yn ystod 2001, canfuwyd niferoedd isel o facteria'r colon yn y dŵr oedd yn gadael nifer fechan o weithfeydd trin dŵr a chronfeydd gwasanaeth. Mae'r safon mewn cronfeydd gwasanaeth yn caniatáu i 5% o samplau gynnwys bacteria'r colon. Yn 2001, dim ond un o gronfeydd gwasanaeth y Cwmni fethodd â chwrrd â'r safon. Nid yw'r gronfa hon bellach yn cyflenwi.

Canfuwyd bacteria'r colon mewn 0.2% o'r samplau a gymerwyd o dapiau defnyddwyr. Gallai llawer o'r methiannau hyn fod yn ganlyniad i gyflwr y tap ac nid y dŵr ei hun. Mae'r safon yn caniatáu i 5% o samplau dŵr mewn parth cyflenwi gynnwys bacteria'r colon ac fe gyfarfu pob parth â'r safon. Mae hwn yn welliant bychan ar ganlyniad y llynedd.

PLALADDWYR

Cynhaliodd Dŵr Cymru fwy na 19,800 o brofion ar gyfer plaladdwyr unigol yn ystod 2001 ac roedd pob sampl ond chwech yn cwrdd â'r safonau llymaf. Mewn crynodiadau isel iawn nid oedd y plaladdwyr a ganfuwyd yn beryglus i iechyd. Mae hyn yn adlewyrchu'r buddsoddiad sylweddol mewn blynyddoedd diweddar i gael gwared â phlaladdwyr o ddŵr yfed. Mae'r cwmni yn gosod triniaeth ychwanegol yn un gwaith trin dŵr i sicrhau cael gwared ag unrhyw blaladdwyr, a allant fod yn bresennol yn y dŵr o dro i dro.

PLWM

Yn achlysurol mae samplau'n methu'r safon ar gyfer plwm, hyd yn oed lle bo triniaeth ychwanegol wedi ei osod i leihau ar faint o blwm a godir o'r pibellwaith gan y dŵr. Mae'r methiannau hyn fel arfer oherwydd bod pibellau dŵr y defnyddwyr wedi eu gwneud o blwm. Pryd bynnag y bydd methiant, mae Dŵr Cymru'n hysbysu deiliad y tŷ o unrhyw broblemau ac yn eu cynghori ar beth ellir ei wneud i leihau lefelau'r plwm yn y dŵr yn y tap.

Os ydych yn bryderus ynglŷn â'r posibilrwydd o blwm yn eich dŵr yfed, dylech gysylltu â Dŵr Cymru i weld a oes problem. Mae taflen yn ymdrin â phlwm mewn dŵr yfed ar gael yn rhad ac am ddim gan ADY ac fe ellir ei gweld hefyd ar wefan ADY.

Methodd deg y safon am blwm yn ystod 2001 allan o 1,237 o samplau a gymerwyd gan Dŵr Cymru.

HAERN A MANGANÏS

Mae'r ddau baramedr hyn yn rhoi arwydd da o gyflwr cyffredinol y prif bibellau a ddefnyddir i ddsbarthu dŵr yfed drwy'r ardal gyflenwi. Yn ystod 2001, dim ond 52 o'r 4,273 sampl a gymerwyd ar gyfer haearn fethodd â chyrraedd y safon. Mae hyn yn debyg i 2000. Yn ychwanegol, dim ond wyth o'r 2,185 sampl a gymerwyd ar gyfer manganïis a fethodd â chyrraedd y safon, sydd hefyd yn debyg i 2000. Mae hyn yn adlewyrchu effaith y rhaglen waith sy'n cael ei gweithredu gan Dŵr Cymru i adnewyddu ei system ddsbarthu. Yn ystod 2000 a 2001, adnewyddodd y cwmni 656 km o brif bibellau dŵr. Mae'r rhaglen wella hon yn un barhaol ac mae disgwyl i Dŵr Cymru adnewyddu 4,130 km ymhellach o brif bibellau erbyn 2010.

CRYPTOSPORIDIUM

Micro-organedd bychan yw *Cryptosporidium* a all weithiau achosi ffurf ar ddolur rhydd o'r enw cryptosporidiosis. Mae nifer o ffynonellau *Cryptosporidium* ar wahân i ddŵr yfed. Mae rheolau newydd yn mynnu fod cwmnïau dŵr yn samlo'n barhaol a dadansoddi'n ddyddiol ar gyfer *Cryptosporidium* yn y dŵr sy'n cael ei drin mewn safleoedd lle mae'r perygl mwyaf posib. Mae'n drosedd i fynd dros y safon triniaeth newydd ar gyfer *Cryptosporidium*.

Yn ystod 2001, cyflawnodd Dŵr Cymru ei ofynion i gynnal samplau a monitro parhaol mewn 25 o'i safleoedd a ddynodwyd fel rhai oedd mewn perygl sylweddol rhag *Cryptosporidium*. Mae disgwyl i'r cwmni ddweud wrth ADY am unrhyw fethiannau i gwrdd â'r safon trin. Nid adroddodd Dŵr Cymru am unrhyw fethiannau yn ystod 2001.

DIGWYDDIADAU SAFON DŴR YFED

Ystyriodd ADY 15 o'r achlysuron y derbyniodd wybodaeth amdanynt yn ystod 2001 gan y Cwmni fel digwyddiadau. Gweler y manylion trosodd.

Roedd tri ar ddeg o'r achlysuron a aseswyd gan ADY yn rhai byrhoedlog ac fe wnaeth y Cwmni waith adfer. Gwnaed wyth argymhelliad gan y Cwmni yn bennaf ynglŷn â samplau a hysbysu. Mae dau asesiad o ddigwyddiadau o 2001 yn dal dan ystyriaeth, ynghyd â thri o 2000.

Yn 2001, gwnaeth ADY asesiad ar 2 ddigwyddiad a ddigwyddodd yn 2000.

ERLYNIADAU

Mae Adran 70 Deddf y Diwydiant Dŵr yn ei gwneud yn drosedd i gwmni dŵr gyflenwi dŵr nad yw'n addas ar gyfer pobl. Mae ADY yn archwilio pob digwyddiad sy'n ymwneud â dŵr yfed. Os ydyw er lles y cyhoedd bydd ADY yn ystyried erlyn os oes tystiolaeth ddigonol fod cwmni dŵr wedi cyflenwi dŵr nad yw'n addas ar gyfer pobl, ac os nad oes gan y cwmni dystiolaeth ei fod wedi cymryd pob cam rhesymol i osgoi'r digwyddiad rhag digwydd neu ei fod wedi methu â bod yn ddigon gwyliadwyr i wneud y cyflenwad yn ddiogel.